

Asesu Effaith Economaid y Celfyddydau ar Iechyd a Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru

Adroddiad ar gyfer Cyngor Celfyddydau
Cymru gan y Ganolfan Economeg Iechyd
a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME),
Prifysgol Bangor.

IONAWR 2026

CEFNDIR A CHRYNODEB O'R
CANFYDDIADAU ALLWEDDOL



Arts Care Gofal Celf

Pam yr adroddiad hwn, a pham nawr?

Yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, ein nod yw cyfrannu at bob un o saith nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan creadigrwydd y potensial i rymuso Cymru lewyrchus, gydnherth a mwy cyfartal, sy'n ymddwyn yn gyfrifol yn fyd-eang gyda chymunedau mwy cydlynol a bywiog ble mae'r Celfyddydau a'r Gymraeg yn ffynnu, ac wrth gwrs, Cymru iachach.

Wrth i Lywodraeth Cymru ystyried ei blaenoriaethau, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud yr achos dros gyllid cyhoeddus i'r celfyddydau ac yn dangos yr holl ffyrdd y maent yn cyfrannu at wneud Cymru'n well.

Mae'r adroddiad newydd hwn gan y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) Brifysgol Bangor yn darparu asesiad annibynnol o effaith economaidd y celfyddydau ar y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hefyd yn edrych ar effeithiau ehangach ar iechyd y boblogaeth ac effeithiau cymdeithasol.

Dyma'r tro cyntaf i effaith economaidd y celfyddydau ar y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru gael ei hymchwilio ar lefel genedlaethol.

I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i: celf.cymru

Cefndir

Arts Care Gofal Celf



- ▶ Mae'r adroddiad **Asesu Effaith Economaidd y Celfyddydau ar Iechyd a Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru** yn adeiladu ar adroddiad gan Frontier Economics yn 2024 a fu'n trafod yr effeithiau economaidd hyn yn y DU.
- ▶ Mae'n cymhwyso modelau'r adroddiad hwnnw i ffigurau poblogaeth Cymru a data cyfranogi a mynychu ar gyfer cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn (2019-2024) gan Cyngor Celfyddydau Cymru.
- ▶ Mae tystiolaeth gynyddol yn cysylltu ymgysylltu â chelfyddydau a diwylliant ag iechyd corfforol a meddwl gwell drwy fywyd.
- ▶ Mae sefydlu gwerth ariannol y budd hwn, a'r arbedion posib i'r GIG a gofal cymdeithasol, yn faes ymchwil diweddar a chynyddol bwysig.
- ▶ Mae hefyd yn archwilio, o safbwynt ariannol, potensial prosiectau a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) wrth fynd i'r afael â heriau iechyd a lles allweddol ledled Cymru.

Prif Ganfyddiadau

Mae'r canfyddiadau yn dangos manteision ariannol sylweddol i iechyd a lles ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru.



- Mae amcan-werth y budd iechyd a chynhyrchedd a gynhyrchir o bob ymgysylltiad â'r celfyddydau yng Nghymru (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i weithgareddau CCC) yn **£588m** y flwyddyn o leiaf.



- Amcangyfrifwn fod buddsoddiad y CCC mewn cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn yn cynhyrchu ROI ariannol o **£11.08** am bob **£1** a fuddsoddir o ran budd iechyd, lles a chynhyrchedd.



- Gallai rhaglen ddawnsio i wella cryfder a chydbwysedd arbed **£5m** y flwyddyn mewn costau gofal iechyd drwy atal codymau ymhlith yr henoed.



- Gallai osgoi 5% o apwyntiadau iechyd meddwl meddyg teulu ar gyfer oedolion drwy ymgysylltu â'r celfyddydau arbed **£17m** y flwyddyn.



- Os gallai rhaglenni celfyddydau gyrraedd 5% o bobl ifanc ar lwybrau iechyd meddwl y GIG, byddai'n creu **budd iechyd meddwl a lles blynyddol o £9.5m**.



- Mae gan raglenni celfyddydau a allai wella iechyd a lles staff y GIG botensial i arbed hyd at **£3.5m** y flwyddyn drwy leihau costau salwch staff a staff yn gadael.

Buddsoddi yn y dyfodol

O gofio bod lefel yr arian cyhoeddus fesul person i'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru ymhlith yr isaf yn Ewrop, mae'n glir y byddai buddsoddiad ychwanegol yn y celfyddydau'n cynhyrchu mwy fyth o fudd iechyd a lles ac yn helpu i leihau'r galw ar y GIG yng Nghymru.

I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i:
celf.cymru

Llun: Rachel Shiamh



Arts Care Gofal Celf

PSU ac Arts Care Gofal Celf



Oasis One World Choir



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
(Telynores - Delyth)

Cyngor Celfyddydau Cymru yw corff cyhoeddus swyddogol y wlad ar gyfer ariannu a datblygu'r celfyddydau. Wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol ym 1994, rydym yn cefnogi ac yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru er budd pobl ledled Cymru, ac rydym yn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bodoli i:

- Datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac arfer y celfyddydau
- Cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd
- Gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- Gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a Chynghorau Celfyddydau eraill y DU, i gyflawni'r nodau hyn.

Mae ansawdd rhagorol y gwaith artistig a gynhyrchir gan yr artistiaid a'r sefydliadau a ariannwn yn cael ei gydnabod yn eang, ac rydym yn datblygu gwaith yn gynyddol gyda chysylltiadau mesuradwy ac uniongyrchol â buddion iechyd, lles, addysg a'r amgylchedd. I ddarllen yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, ewch i celf.cymru